# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**28 MEHEFIN 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips and J.E. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio);
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 10:35am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Curry a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Howell | 3. Cais Cynllunio:- **E/35920 - Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn ar safle Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RX** | Mae wedi masnachu â'r cwmni o'r blaen. |
| M.J.A. Lewis | 3. Cais Cynllunio:- **E/35920 - Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn ar safle Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RX** | Mae'n masnachu â'r cwmni ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| J.A. Davies | 3. Cais Cynllunio:-<br>**E/35920 -**<br>**Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn ar safle Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RX** | Mae'n masnachu â'r cwmni ar hyn o bryd. |
| J.E. Williams | 3. Cais Cynllunio:-<br>**E/35920 -**<br>**Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn ar safle Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RX** | Mae'n gosod tir ar rent i barti â diddordeb ar hyn o bryd. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

(SYLWER: Gan fod y Cynghorwyr K. Howell, M.J.A. Lewis, J.A. Davies a J.E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon.)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35920** | **Estyniad arfaethedig ar gyfer ffatri prosesu cig i ddarparu 4 ardal ychwanegol i oeri carcasau, llinell fach ar gyfer anifeiliaid a phlatfform trin a storio dŵr yn yr iard gefn ar safle Cig Calon Cymru, Clos Gelliwerdd, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RX** |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/3196** | **Estyniad unllawr yn y cefn yn 81 Parc Hendre, Llangennech, Llanelli, SA14 8UR** |

**5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-**

**5.1. 15 MAI, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2018 yn gywir.**

**5.2. 31 MAI, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2018, gan eu bod yn gywir, yn amodol ar y newidiadau canlynol a amlinellwyd fel a ganlyn:-**

- Eitem 2 ar yr Agenda – Datgan Buddiant
  Dylai'r Math o Fuddiant fod fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 3 – W/35903 – Datblygiad Preswyl – Cadw'r holl faterion yn ôl ar dir yn Lluest y Bryn, Caerfyrddin | Mae ganddo fuddiant personol a rhagfarnol yn y cais hwn. |

- Eitem 5 ar yr Agenda –
  W/35903 – DATBLYGIAD PRESWYL – CADW'R HOLL FATERION YN ÔL AR DIR YN LLUEST Y BRYN, CAERFYRDDIN

  Dylai'r nodyn fod fel a ganlyn:-

  (SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y cyfarfod tra bo ystyriaeth yn cael ei rhoi iddi)

Ar yr adeg hon, estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Steve Murphy, Uwch-gyfreithiwr, am gael ei benodi yn Aelod o Bwyllgor Amgylcheddol a Chynllunio Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr. Pwrpas y Pwyllgor oedd adolygu cyfreithiau cynllunio, arferion a gweithdrefnau.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**